Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a
Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Hydref 2017

Annwyl Gyfaill

**Ymgynghoriad ar ddulliau gweithredu lleol ar gyfer lleihau tlodi: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i ddulliau gweithredu lleol ar gyfer lleihau tlodi: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

**Cylch gorchwyl**

Dyma gylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer ei ymchwiliad:

– archwilio sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn targedu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru;

– asesu ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth ddatblygu cynlluniau llesiant lleol o ran anghenion a phrofiadau pobl sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys sut y mae byrddau gwasanaethau lleol yn gweithredu o ran diflaniad sy'n nesáu Cymunedau yn Gyntaf;

– ystyried sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i'r afael, yn benodol, â thlodi gwledig, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu cynlluniau Llesiant

– archwilio a deall profiadau sefydliadau (cyhoeddus, preifat a thrydydd sector) ac unigolion yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau llesiant ac effaith bosibl mwy o weithio rhanbarthol yn y dyfodol.

## Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo â'i waith o ystyried y Bil. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Dylai sylwadau gyrraedd erbyn **dydd Mercher 6 Rhagfyr 2017.**

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

## Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y canllawiau i rai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

## Polisi dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Disgwyliwn i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

## Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn http://www.cynulliad.cymru/PrifatrwyddYmchwiliadau. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

**Manylion cyswllt**

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA.

E-bost: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
Rhif ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir,

John

John Griffiths AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**